

Fforwm ADY Powys i Rieni/Gofalwyr

Mae Cyngor Sir Powys yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau ein bod yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u barn, a'u bod yn gallu cyflwyno gwybodaeth ar gyfer y gwaith a gynhelir.

Cynhaliwyd cyfarfod dechreuol y Fforwm ar noswaith y 4 Ebrill 2019. Cytunwyd ar yr enw llawn ynghyd â'r is-bennawd "Gweithio Gyda'n Gilydd a Dylanwadu". Lluniwyd fersiwn drafft o ddatganiad gweledigaeth, cytunwyd ar ba mor aml i gynnal cyfarfodydd a chafodd y prif flaenoriaethau eu pennu ar gyfer y misoedd sydd i ddo.

Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar ddydd Mawrth 18 Mehefin 2019 am 6.30pm yn Uned Atgyfeirio Disgyblion Aberhonddu, Heol Hwnt, Aberhonddu, LD3 8BL. Cysylltwch â ni os ydych yn dymuno cymryd rhan.

Bwydlenni Ysgol

Mae'r fîm Trawsnewid ADY wedi bod yn gweithio gydag Arlwygo Powys i greu bwydlenni ysgol sy'n eglurach ac yn haws i'w darllen gan yr holl ddisgyblion a'r staff. Y gobaith yw y bydd y bwydlenni hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted ag sy'n bosibl i holl ysgolion Powys.



Darpariaeth mewn Canolfannau Arbenigol

Yn ddiweddar, fe wnaethom ofyn am eich barn ar y Canolfannau Arbenigol ym Mhowys: Fe wnaethom gynnal:

* 9 grŵp ffocws cyhoeddus (lonawr - Mawrth 2019) gyda dros 70 o bobl yn bresennol.

* Arolwg ar-lein a gynhaliwyd o'r 22 Ionawr tan 17 Chwefror gyda dros 128 o ymatebion. Roedd 12% o'r rhain yn uniongyrchol oddi wrth y bobl ifanc sy'n mynychu'r ddarpariaeth.

Cawsom wybod gennych chi am yr hyn sy'n gweithio'n dda, ynghyd â'r hyn sydd ddim yn gweithio mor dda, a sut y gellir gwella pethau. Roedd y sylwadau o'r arolwg yn adlewyrchu'r rheini a wnaed yn ystod y cyfarfodydd, a chafodd y canfyddiadau eu hadrodd yn ôl yn ystod cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Mawrth.

Diolch i bawb wnaeth fynychu'r grwpiau ffocws neu a lenwodd yr arolwg.

Arolwg yn gofyn am safbwyntiau rhieni/gofalwyr o ran darpariaeth (ADY)

Daeth arolwg i ganfod safbwyntiau pob rhiant/gofalwr ar y gefnogaeth y mae eu plant a phobl ifanc yn ei dderbyn gan eu hysgolion, yn enwedig o ran cefnogaeth ar gyfer ADY i ben ar ddydd Sul 2 Mehefin 2019.

Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu mewn deunyddiau cyfathrebu a digwyddiadau yn y dyfodol, a bydd y wybodaeth a ddaw trwy'r arolwg yn cael ei defnyddio i hysbysu a siapio darpariaeth yn y dyfodol a fyddai'n addas i anghenion plant a phobl ifanc ym Mhowys.

Diolch i chi oll am gymryd yr amser i rannu eich safbwyntiau.

Gwybodaeth Bellach:

Cyngor Sir Powys : <https://en.powys.gov.uk/ALN>

Llywodraeth Cymru : <https://llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-anghenion-dysgu-ychwanegol>



Deddf Anghenion Dysgu Y chwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018



Yn agored a blaengar - Open and enterprising

Powys

